Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# IS-BWYLLGOR CRAFFU DIOGELWCH CYMUNEDOL A DIOGELU'R CYHOEDD

***10.00 AM DYDD GWENER, 1 HYDREF 2021***

***O Bell Trwy Teams***

**Rhaid gosod pob ffôn symudol ar y modd distaw ar gyfer parhad y cyfarfod**

**<u>Rhan 1</u>**

1. Croeso a galw’r rhestr

2. Cyhoeddiad y Cadeirydd

3. Datganiadau o fuddiannau

4. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol *(Tudalennau 5 - 20)*

5. Cyhoeddiadau Swyddogion

6. Effaith COVID ar Wasanaeth Hylendid Bwyd ac Archwiliadau

7. Adroddiad Diogelwch Cymunedol a Pherfformiad Diogelu'r Cyhoedd - Chwarter 1 2021/2022 *(Tudalennau 21 - 28)*

8. Blaenraglen Waith *(Tudalennau 29 - 32)*

9. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys (boed yn gyhoeddus neu wedi’u heithrio) yn ol disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**K.Jones**
**<u>Prif Weithredwr</u>**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot**

**Dydd Iau, 23 Medi 2021**

**<u>Aelodaeth y Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **S.K.Hunt**

**Is-gadeirydd:** **R.L.Taylor**

**Cynghorwyr:** D.Cawsey, C.J.Jones, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey a/ac S.M.Penry

**<u>Nodiadau:</u>**

*(1) Os yw aelodau'r pwyllgor neu'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am gynnig eitemau perthnasol i'w cynnwys ar yr agenda cyn cyfarfodydd y dyfodol, rhaid iddynt roi gwybod i'r Prif Weithredwr/Cadeirydd 8 niwrnod cyn y cyfarfod.*

*(2) Os yw'r rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor am fod yn bresennol ar gyfer eitem o ddiddordeb, mae'n rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw (erbyn 12 hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod). Gall y rhai nad ydynt yn aelodau'r pwyllgor siarad ond nid oes ganddynt hawl i bleidleisio, cynnig nac eilio unrhyw gynnig.*

*(3) Fel arfer, ar gyfer trefniadau cyn craffu, bydd y Cadeirydd yn argymell eitemau gweithredol sydd ar ddod i'w trafod/herio. Mae hefyd yn agored i aelodau'r pwyllgor ofyn i eitemau gael eu trafod - er y gofynnir i'r aelodau ddewis a dethol yma o ran materion pwysig.*

*(4) Gwahoddir aelodau perthnasol Bwrdd y Cabinet hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod at ddibenion Craffu/Ymgynghori.*

*(5) Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ddod â'u papurau ar gyfer Bwrdd y Cabinet i'r cyfarfod.*

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag

**IS-BWYLLGOR CRAFFU DIOGELWCH CYMUNEDOL A DIOGELU'R CYHOEDD**

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 9 Gorffennaf 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.K.Hunt** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.L.Taylor** |
| **Cynghorwyr**: | D.Cawsey, C.J.Jones, S.Pursey, S.Rahaman, N.T.Hunt, S.Bamsey a/ac S.M.Penry |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Plowman, E.Wellington, C.Jones a/ac C.Millis |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr L.Jones, A.Wingrave, W.F.Griffiths, J.Hale, M.Protheroe, M.Otteson a/ac G.Prosser |

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2020.

2. **DIOGELWCH CYMUNEDOL - DIWEDDARIAD YNGHYLCH YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL**

Diweddarwyd yr Aelodau ar y problemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) yng nghanol Tref Castell-nedd a rhoddwyd gwybodaeth iddynt mewn perthynas â'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd ynghylch y mater proffil uchel hwn.

Eglurodd y Pennaeth Cyfranogiad fod y Tîm Partneriaethau a Chydlyniant Cymunedol bellach yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, ac wedi bod ers mis Ionawr 2021; canmolwyd y tîm am y gwaith roeddent wedi bod yn ei wneud ac yn parhau i'w wneud ar draws Castell-nedd Port Talbot.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Tîm Diogelwch Cymunedol, a oedd yn dîm bach o 11 o Swyddogion, yn ymdrin â materion cymhleth a dyrys iawn; roeddent wedi defnyddio a phrofi methodolegau ynghylch ymagwedd datrys problemau i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y

materion. Ychwanegwyd bod gan y tîm gysylltiadau agos â phartneriaid allweddol a thimau mewnol, a oedd yn rhan annatod iawn o'r gwaith yr oedd angen ei wneud.

Ar wahân i reoli YG yn y Fwrdeistref Sirol, ychwanegwyd bod y Tîm Diogelwch Cymunedol hefyd yn rheoli meysydd megis Cam-drin Domestig, Troseddau Casineb a Chydlyniant Cymunedol; ers dechrau'r pandemig, roeddent hefyd yn gyfrifol am Wasanaeth Diogel ac Iach Castell-nedd Port Talbot.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Swyddogion, ym mis Gorffennaf 2020, wedi cael gwybod am bryderon cynyddol ynghylch YG yng Nghanol Tref Castell-nedd; codwyd y pryderon hyn yn bennaf drwy'r cyfryngau cymdeithasol, nad oedd yn ffordd ffurfiol o adrodd i wasanaethau. Nodwyd bod preswylwyr a busnesau wedi bod yn siarad â Chynghorwyr lleol am faterion yn ymwneud ag yfed ar y stryd, niwsans sŵn, cardota ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol eraill; tybiwyd bod y problemau hyn yn digwydd o ganlyniad i Wasanaeth Opsiynau Tai'r cyngor yn defnyddio Gwesty'r Ambassador ers dechrau'r pandemig.

Dywedodd swyddogion fod adroddiadau swyddogol i'r Heddlu a staff y cyngor yn isel iawn a theimlwyd, wrth edrych ar y materion a godwyd ar gyfryngau cymdeithasol, efallai nad oedd hyn wedi bod yn adlewyrchiad cywir o'r hyn a oedd yn digwydd yn y dref, a oedd yn bryder i Swyddogion.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd adrodd am bryderon a gwybodaeth yn y ffordd gywir; gallai aelodau o'r cyhoedd wneud hyn mewn nifer o ffyrdd. Esboniwyd pe na bai'r dystiolaeth a'r ystadegau wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata i adlewyrchu'r hyn a oedd yn digwydd yn yr ardal, ei fod yn lleihau rhai pwerau a galluoedd y Swyddogion o ran dod o hyd i atebion i'r problemau.

Yn dilyn y pryderon hyn, nodwyd bod y Tîm Diogelwch Cymunedol wedi galw cyfarfod partneriaeth i ddeall y problemau'n well, edrych ar bwy oedd wrth wraidd y problemau ac ystyried cynllun gweithredu priodol i sicrhau bod y sefyllfa'n gwella ac nad oedd yn dirywio; cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2020, wedi'i gydlynu gan Ddiogelwch Cymunedol. Soniwyd bod y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd wedi cadeirio'r cyfarfod a bod aelodau perthnasol y Cabinet a'r Cynghorwyr ward hefyd yn bresennol; cafwyd cynrychiolaeth gan nifer o asiantaethau partner gan gynnwys Heddlu De Cymru (HDC), Opsiynau Tai, WCADA, Trwyddedu, Gofal Strydoedd, Byddin yr

Iachawdwriaeth, Ardal Gwella Busnes Castell-nedd (BID) a'r Bartneriaeth Lleihau Troseddau Busnes (PLITB).

O'r cychwyn cyntaf, dywedwyd bod parodrwydd partneriaid i gefnogi a chyfranogi'n rhagorol a bod llawer iawn wedi mynychu'r holl gyfarfodydd dilynol; roedd pob partner yn awyddus i weithredu ac ysgogi newid yn yr ardal, yn enwedig gan fod llawer o'r unigolion a oedd yn dod i'r cyfarfodydd yn breswylwyr yr ardal eu hunain.

Penderfynodd y grŵp fabwysiadu ymagwedd ar y cyd, a oedd yn cynnwys y canlynol:

1: Nodi pwy oedd wrth wraidd y problemau a sicrhau bod cymorth priodol ar gael i'r bobl hynny, ac y gellid rhoi mesurau priodol ar waith i ddatrys problemau YG. Nodwyd bod y dull hwn yn ffafriol gan fod y rheini sy'n ymwneud ag YG yn aml yn agored iawn i niwed ac roedd ganddynt anghenion cymhleth, felly roedd yn bwysig nodi'r achosion sylfaenol;

2. Parhau i annog preswylwyr i roi gwybod am unrhyw broblemau drwy'r sianeli cywir, er mwyn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen ar wasanaethau i fynd i'r afael â'r problemau yn well.

Esboniwyd bod y grŵp hefyd yn cytuno i gyfres o gamau gweithredu tymor byr, uniongyrchol i fynd i'r afael â'r broblem bresennol ac i edrych hefyd ar gamau gweithredu mwy strategol, tymor hwy, i sicrhau nad oedd y problemau'n digwydd eto; roedd pawb yn deall na fyddai hon yn broses dros nos ac y byddai'n cymryd cryn adnoddau ac ymdrech gan bob partner.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod angen gweithio hefyd i wella canfyddiad y cyhoedd o'r dref gan fod rhai materion yn cael eu gwaethygu gan gyfryngau cymdeithasol ac ar adegau'n gwneud i broblemau ymddangos yn waeth nag yr oeddent.

Rhoddwyd manylion i'r Pwyllgor mewn perthynas â rhai o'r camau a gymerwyd yn syth:

- Gofynnwyd i gydweithwyr trwyddedu ymweld â phob tŷ trwyddedig lleol yng nghanol y dref, i'w hatgoffa ynghylch gwerthu'n gyfrifol a'u briffio ynghylch y problemau parhaus;
- Roedd Opsiynau Tai a HDC wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a nodi'r unigolion sy'n peri'r pryder mwyaf, ac maent yn parhau i wneud hynny, a allai hefyd ganiatáu i gynlluniau gweithredu unigol gael eu datblygu pe bai angen;
- Rhagor o Heddlu yn y dref;

- Cyhoeddwyd nifer o ddatganiadau i'r wasg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol i annog adrodd drwy'r sianeli cywir er mwyn caniatáu i bob partner gael adlewyrchiad cywir o bryderon a chael tystiolaeth gadarn i gymryd camau pellach yn erbyn y rhai sy'n achosi'r problemau;
- Archwiliodd swyddogion Orchmynion Gwasgaru adran 35, Rhybuddion Diogelu Cymunedol, Hysbysiadau Diogelu Cymunedol a Gorchmynion Ymddygiad Troseddol ar gyfer y rheini a nodwyd. Esboniwyd proses y gwahanol rybuddion, hysbysiadau a gorchmynion, ond ynghyd â hyn, ychwanegodd Swyddogion eu bod hefyd yn ceisio sicrhau bod y bobl sy'n peri pryder yn cael y cyfle i gael gafael ar y cymorth cywir er mwyn ceisio gwneud newidiadau cadarnhaol;
- Cynnig mwy o weithgareddau dargyfeiriol a chymorth allgymorth i'r rheini sy'n cael eu lletya yng ngwesty'r Ambassador. Nodwyd bod y darn penodol hwn o waith wedi bod yn heriol, fel yr oedd yn ystod uchafbwynt y pandemig lle'r oedd y trefniadau gweithio gartref a'r sefyllfa iechyd a diogelwch gyffredinol ynghylch trosglwyddo'r feirws yn effeithio'n fawr ar wasanaethau; Roedd WCADA a gwasanaethau eraill wedi ymchwilio i hyn er mwyn ceisio rhoi gweithgareddau amrywiol i bobl ymgymryd â hwy yn ystod y dydd.

Darparodd Swyddogion wybodaeth mewn perthynas â rhai o'r camau gweithredu tymor hwy y cytunwyd arnynt:

- Gweithio gyda chydweithwyr ehangach yn y cyngor ar y Rhaglen Adfywio ar gyfer Canol Tref Castell-nedd. Soniwyd mai un o'r syniadau o fewn hyn oedd gwella golwg a theimlad cyffredinol y dref i annog eraill i ymweld â chanol y dref a'i wneud yn lle gwell i'r trigolion fyw, gweithio a chymdeithasu;
- Cyflogi rhagor o staff canol y dref i gynyddu presenoldeb yng nghanol y dref;
- Ystyried ymgyrchoedd tymor hwy gan yr Heddlu i fynd i'r afael â'r materion;
- Siarad â Llywodraeth Cymru am gyllid i gynyddu darpariaeth llety dros dro Opsiynau Tai fel bod preswylwyr yn fwy gwasgaredig. Yn dilyn cychwyniad y pandemig, esboniwyd bod Llywodraeth Cymru'n mynnu bod pob Awdurdod Lleol yn lletya unrhyw un a oedd yn ddigartref ar y pryd; roedd problemau ynghylch hyn gan nad oedd gan y cyngor ddigon o adeiladau i ddarparu ar gyfer nifer y bobl a oedd yn ddigartref ac roedd y

GIG yn defnyddio llawer o westai lleol ar gyfer y rheini a oedd yn gweithio ar y rheng flaen. Nodwyd bod Gwesty'r Ambassador yng Nghastell-nedd wedi cytuno i ddarparu ar gyfer y rheini yr oedd angen arnynt le i aros, a'i fod wedi bod yn gwneud hyn ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon; Parhaodd Opsiynau Tai i bwyso ar Lywodraeth Cymru am gyllid er mwyn darparu opsiynau llety eraill;

- Datblygu a gweithredu Cynllun Cyfathrebu cadarn i ledaenu negeseuon cadarnhaol am y dref, ond hefyd i hyrwyddo dulliau adrodd;
- Ailddechrau digwyddiadau ymgysylltu, cyn gynted ag y mae cyfyngiadau COVID yn caniatáu, i sicrhau presenoldeb yn y dref, caniatáu lle priodol i breswylwyr a busnesau rannu eu pryderon a gweithredu fel rhwystr i'r rheini sydd wrth wraidd y problemau. Nodwyd mai rhan fawr o waith y Tîm Diogelwch Cymunedol oedd mynd allan ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd; sylwodd y tîm ar golled enfawr yn sgîl peidio â gallu gwneud hyn oherwydd y pandemig;
- Ailwampio ac ehangu'r Bartneriaeth Lleihau Troseddau Busnes (PLlTB) bresennol i edrych ar waharddiadau pellach ar gyfer troseddwyr cyson, a mwy o gefnogaeth i fasnachwyr. Dywedwyd y bydd aelodau'r panel, yn y cyfarfodydd hyn, yn edrych ar y troseddwyr cyson a'u troseddau ac yn penderfynu a ddylid gwahardd pobl o safleoedd unigol; gyda chymorth yr Heddlu ac Aelodau Lleol, gellid hyrwyddo'r offeryn effeithiol hwn ymhellach.

Hysbyswyd yr Aelodau fod y grŵp, erbyn mis Ionawr 2021, wedi penderfynu cyfarfod yn llai aml gan fod problemau wedi gwella, ond bod gwaith yn parhau y tu ôl i'r llenni; yn dilyn hyn, digwyddodd dau ddigwyddiad unigryw yn y dref - cadarnhawyd nad oedd y ddau yn gysylltiedig â gwesty'r Ambassador, ond cawsant lawer o sylw ar gyfryngau cymdeithasol ac effeithiwyd gryn dipyn ar waith y grŵp. Tynnodd Swyddogion sylw at y ffaith bod canfyddiad y cyhoedd o'r dref wedi gwaethygu ar y pryd, a phenderfynodd y grŵp gynyddu amlder y cyfarfodydd er mwyn ailymweld â'r camau cychwynnol a chyflwyno camau gweithredu tymor hwy, lle bo hynny'n bosib. Nodwyd bod Heddlu De Cymru wedyn wedi penderfynu lansio Ymgyrch Lileum ym mis Mawrth 2021 i helpu gyda'r problemau dan sylw, ac roedd yn dal i fynd yn ei blaen ar hyn o bryd.

Soniwyd y bu digwyddiad YG arall yng Nghanol Tref Castell-nedd yn ystod yr wythnos cyn cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu ar Ddiogelwch

Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd, a gafodd lawer o sylw ar gyfryngau cymdeithasol unwaith eto; roedd yr wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r sefyllfa ar y pryd allan o'i chyd-destun ychydig oherwydd y trydydd digwyddiad hwn.

O ran y sefyllfa bresennol, roedd Swyddogion wedi derbyn adroddiadau gan fasnachwyr a phreswylwyr am welliant amlwg dros y ddau fis diwethaf a chadarnhawyd bod mwy o bresenoldeb gan yr Heddlu. Hysbyswyd yr Aelodau fod Ymgyrch Lileum wedi arwain at gynnydd mewn adroddiadau drwy'r sianeli cywir, a oedd yn cynnwys yr Heddlu'n cofnodi digwyddiadau wrth batrolio canol y dref ac annog busnesau a phreswylwyr yn rheolaidd i roi gwybod am eu pryderon; roedd adroddiadau'n gostwng yn raddol. Nodwyd bod masnachwyr yn arbennig yn dweud wrth yr Heddlu a staff y cyngor am 'deimlad' gwell yn y dref yn ystod yr wythnosau diwethaf; ac roedd aelodaeth y PLlTB yn cynyddu, gyda thaflenni hyrwyddol diwygiedig ac ymweliadau rheolaidd â masnachwyr

Trafodwyd y pwyntiau canlynol fel y camau nesaf i'r cyngor a'i bartneriaid wrth geisio datrys y problemau gydag YG:

- Bydd Ymgyrch Lileum yn parhau, gyda llinynnau ychwanegol, i sicrhau yr ymchwilir i gyfleoedd am gymorth cyn cymryd camau pellach;
- Bydd HDC ac Opsiynau Tai yn parhau i gyfarfod i drafod y rheini sy'n peri'r pryder mwyaf. Roedd Rheolwr y Gwasanaeth Opsiynau Tai wedi cadarnhau bod 31 o breswylwyr yng Ngwesty'r Ambassador ar hyn o bryd, a oedd yn llawer llai na'r hyn a fu o'r blaen;
- Roedd y PLlTB a Thrwyddedu yn ystyried a fyddai'n bosib ei gwneud yn ofynnol i dai trwyddedig ymuno â chynllun y PLlTB, os yw'n briodol;
- Bydd gweithredu'r Cynllun Cyfathrebiadau yn parhau a bydd yn lansio gwedudalen #CastellNeddArYCyd, lle gall preswylwyr a masnachwyr weld y datblygiadau diweddaraf ar y gwaith sy'n cael ei wneud a bydd yn llwyfan arall i Swyddogion gadw mewn cysylltiad â'r cyhoedd;
- Bydd sesiynau briffio rheolaidd/wythnosol yn parhau rhwng Swyddogion a Chynghorwyr priodol;
- Bydd gwaith i adfywio'r dref yn parhau;
- Roedd digwyddiadau ymgysylltu Diogelwch Cymunedol wedi ailddechrau a byddant yn parhau, os yw cyfyngiadau COVID yn caniatáu;

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu newidiadau i ddeddfwriaeth ddigartrefedd a weithredwyd ar ddechrau'r pandemig;
- Bydd y cymorth allgymorth yn parhau i'r rheini sy'n cael cymorth gan WCADA a Byddin yr Iachawdwriaeth;
- Gyda rhagor o fusnesau'n ymuno â'r PLlTB, gallai canol tref Castell-nedd ddod yn 'Barth Gwahardd' gydag agwedd 'dim goddefgarwch' i ymddygiad gwrthgymdeithasol; po fwyaf o fusnesau yn y cynllun, mwyaf effeithiol y daw.

Rhoddodd Arolygydd Heddlu De Cymru ar gyfer Tîm Cymdogaeth Castell-nedd fanylion i'r Pwyllgor am y troseddau a gofnodwyd yn y wardiau sy'n gysylltiedig â Chanol Tref Castell-nedd; roedd y manylion hyn yn cynnwys ystadegau o'r chwe mis diwethaf ac yn eu cymharu â data o'r pum mlynedd diwethaf.

Amlygwyd bod y gyfradd troseddu a gofnodwyd yng Nghastell-nedd ar ei hisaf ar gyfer chwe mis cyntaf 2021 wrth edrych yn ôl ar yr un cyfnodau o'r pum mlynedd diwethaf. Hysbyswyd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o'r mathau o droseddau yn dangos gostyngiad mewn troseddu; cafwyd cynnydd ym meddiant cyffuriau, ond roedd hyn yn golygu bod cynnydd mewn rhagweithioldeb yn y Ward ac felly nid oedd y cynnydd yn y math hwn o drosedd yn peri pryder.

O ran YG, dywedwyd bod cynnydd ymylol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol; fodd bynnag, roedd y data hwn yn ystyried digwyddiadau sy'n gysylltiedig â COVID, a oedd wedi bod yn gyffredin dros y flwyddyn ddiwethaf, a phan dynnwyd y digwyddiadau hyn o'r data, bu gostyngiad yn yr YG am yr un cyfnod o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gan nad oedd y data'n dangos cynnydd sylweddol o ran YG yng nghanol y dref, soniwyd y gallai'r achos o bryder fod yn gysylltiedig â chanfyddiad negyddol o'r dref neu gallai fod problemau gyda thystion nad oeddent yn adrodd am ddigwyddiadau.

Darparwyd rhagor o wybodaeth am Ymgyrch Lileum; fe'i lansiwyd ar ddechrau mis Ebrill 2021 ac ers hynny, roedd aelodau'r Heddlu wedi bod yn patrolio yn y dref bob dydd o'r wythnos. Nodwyd mai naill ai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PSCO), Swyddogion yr Heddlu neu gyfuniad o'r ddau oedd y rhain; oherwydd adnoddau cyfyngedig, nid oedd modd patrolio canol y dref 24/7, ond roedd yr Heddlu'n edrych ar batrymau digwyddiadau blaenorol ac yn ceisio sicrhau bod rhywun ar gael ar yr adegau cywir. Sicrhawyd y Pwyllgor y byddai'r adnodd hwn yng nghanol y dref yn parhau.

Yn ogystal, cyflawnwyd cyllid pellach i gael adnoddau ychwanegol yn y dref, oherwydd ar adegau bu'n rhaid i'r Heddlu ddefnyddio adnoddau o Wardiau eraill; roedd adnoddau'r Heddlu hefyd wedi'u defnyddio gan gynnwys yr adran farchogol ac roedd Ymgyrch Sceptre wedi bod ar waith fel ymgyrch dillad plaen a oedd wedi bod yn llwyddiannus iawn, yn enwedig o ran atafaelu cyffuriau ac arfau. Cadarnhawyd y byddai'r adnoddau hyn hefyd yn parhau i gael eu defnyddio.

Hysbyswyd yr Aelodau fod 99 o atgyfeiriadau YG wedi'u cyflwyno ers i Ymgyrch Lileum ddechrau, a bod y rheini y nodwyd eu bod yn droseddwyr cyson wedi cael Rhybuddion Diogelu Cymunedol a oedd yn gosod amodau arnynt; roedd y rhybuddion hyn wedi bod yn adnodd llwyddiannus. Dywedwyd mai dim ond un unigolyn oedd wedi symud y tu hwnt i'r pwynt hwnnw yn y broses i dderbyn Hysbysiad Diogelu'r Gymuned, a'i fod wedi cael ei arestio sawl gwaith am dorri'r hysbysiad hwnnw; Roedd yr Heddlu bellach yn ymchwilio i Orchymyn Ymddygiad Troseddol ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Ychwanegwyd bod yr Heddlu'n nodi ac yn targedu'r prif rai sy'n gyfrifol ac yn rhoi'r mesurau priodol ar waith i geisio lliniaru eu hymddygiad; Roedd 48 o unigolion wedi cael eu harestio a chafwyd nifer o ganlyniadau eraill gan gynnwys atafaeliadau alcohol.

Dywedwyd bod y problemau yr oedd yr Heddlu'n eu gweld yng Nghanol Tref Castell-nedd yn cael eu hadlewyrchu mewn mannau eraill mewn trefi tebyg ar draws De Cymru; Roedd HDC wedi bod yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i fynd i'r afael â phroblemau parhaus. Tynnwyd sylw at y ffaith y gwnaed llawer o ymdrech i geisio cael pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau, gan fod cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio llawer ar hyn o bryd i rannu fideos o ddigwyddiadau etc. ac nid dyma un o'r ffyrdd ffurfiol o adrodd am ddigwyddiadau. Cadarnhawyd bod HDC wedi dosbarthu gwybodaeth i'r cyhoedd yn ystod yr wythnosau diwethaf mewn perthynas â'r gwahanol ffyrdd o gysylltu â'r Heddlu i roi gwybod am ddigwyddiadau; roedd angen cynyddu hyn er mwyn cael darlun clir ar draws Castell-nedd a sicrhau bod y digwyddiadau y mae'r cyhoedd yn dyst iddynt yn cael eu dwyn i sylw'r Heddlu.

Soniwyd y bydd HDC, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn cyflwyno cais (ar y cyd â'r Awdurdod Lleol) i'r Swyddfa Gartref ar gyfer cyllid rownd tri Strydoedd Mwy Diogel, er mwyn gwella diogelwch yng nghanol trefi Castell-nedd a Phort Talbot.

Diweddarwyd y Pwyllgor ar y pwyntiau canlynol mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, gan fod y gwaith hwn yn cysylltu'n agos ag YG:

- Yn ystod y pandemig, comisiynodd y Bwrdd Cynllunio Ardal sefydliadau fel WACADA i gwblhau mwy o waith allgymorth i geisio ymgysylltu'n well â phobl a helpu pobl i gael gwasanaethau'n gynt, er mwyn iddynt gael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Roedd hyn wedi bod yn effeithiol ac yn rhywbeth y gobeithiwyd y byddai'n parhau;
- Roedd adolygiad pellach yn cael ei gynnal ar sut y gall pobl gael mynediad at wasanaethau, gan fod Swyddogion yn ymwybodol nad oedd hyn yn hawdd i unigolion ar adegau. Y gobaith oedd y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn cyfnod yr hydref;
- Roedd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi llwyddo i gael cyllid ychwanegol mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau a gweithgareddau dargyfeiriol;
- Penodwyd ymgynghorydd yn ddiweddar gan y BCA i ddechrau gweithio ar y prosiect trawsnewid mawr a oedd yn canolbwyntio ar geisio sicrhau bod y bobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau'n cael y cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Gofynnodd yr Aelodau faint o bobl ddigartref oedd yn cael eu lletya yng Ngwesty'r Ambassador ar hyn o bryd ac a oeddent i gyd yn lleol i Gastell-nedd Port Talbot. Cadarnhawyd bod 31 o bobl yn cael eu lletya yn y gwesty ar hyn o bryd,; roedd modd lletya dros 40 o bobl ar y mwyaf. Dywedodd swyddogion, yn ôl y ddeddfwriaeth ddigartrefedd a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig, ei bod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu ar gyfer y rheini a oedd â chysylltiad lleol â'r ardal yn unig; felly dim ond pobl a oedd yn dod o'r ardal neu a oedd â chysylltiadau teuluol yng Nghastell-nedd Port Talbot oedd yn cael eu lletya. Soniwyd bod rhai eithriadau i hyn, er enghraifft rhywun a oedd yn ffoi rhag trais yn y cartref gan y byddai dyletswydd i sicrhau ei ddiogelwch.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Tîm Diogelwch Cymunedol wedi gweithio'n agos gydag Opsiynau Tai, a gynigiodd eu gwasanaeth i ddarparu ar gyfer nifer o wahanol grwpiau o bobl gan gynnwys y rheini a oedd wedi colli eu swyddi, y rheini y mae eu perthynas wedi chwalu, yn ogystal â'r rheini a oedd yn ddigartref; cafwyd rhai straeon llwyddiant gwirioneddol, lle'r oedd unigolion wedi cael y cymorth a'r

gefnogaeth yr oedd eu hangen arnynt ac wedi mynd ymlaen i sicrhau tenantiaeth, gan roi cyfleoedd newydd iddynt.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â chanfyddiad y cyhoedd a materion yn ymwneud ag adrodd; roedd angen cwblhau rhagor o waith ynghylch yr agwedd gyfathrebu er mwyn gwneud i'r cyhoedd deimlo'n hyderus i adrodd am faterion a rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o'r broses adrodd. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol hysbysu'r rheini sy'n rhoi gwybod am faterion am y cynnydd o ran y digwyddiad, er enghraifft beth oedd y canlyniad. Soniodd Swyddogion y gallent hefyd roi gwybodaeth fwy cyffredinol i'r cyhoedd, er enghraifft yr hyn sy'n digwydd pan fydd rhywun yn ffonio 101; Roedd Swyddogion yn cael sgyrsiau rheolaidd am adborth y cyhoedd a sylwadau a dderbyniwyd, a oedd yn eu helpu gyda'u gwaith.

Amlygwyd bod yr Heddlu wedi cynnal llawer o wahanol ymgyrchoedd ar hyd y blynyddoedd, ond roedd yn amlwg bod angen ateb cynaliadwy hirdymor ar gyfer y problemau mewn perthynas ag YG er mwyn atal/lleihau'r digwyddiadau. Esboniodd swyddogion fod hyn yn rhan o'r cynllun ehangach, gan weithio ar y cyd â'r gwahanol asiantaethau; roedd y Prif Weithredwr wedi dangos diddordeb allweddol yn y mater hwn ac wedi gosod yr her i bob partner edrych ar atebion hirdymor mwy cynaliadwy. Ychwanegwyd bod gan bawb gyfrifoldeb a rennir wrth helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn ac roedd yn bwysig ceisio dod o hyd i'r cydbwysedd cywir; delio â'r problemau presennol dan sylw, gan ystyried yr atebion hirdymor a bod yn ymwybodol y cafwyd toriadau i wasanaethau, a gafodd effaith sylweddol ar yr hyn y gellid ei gyflawni. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn parhau i wneud cais am gyllid ac yn pwyso ar Lywodraeth Cymru am arian ychwanegol.

Gofynnwyd i swyddogion a oedd digon o adnoddau a gwaith yn cael ei wneud yng Nghanol Tref Port Talbot i geisio mynd i'r afael â phroblemau YG. Sicrhawyd yr Aelodau bod swyddogion yn gwneud gwaith mewn perthynas ag YG ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan ac yn ymwybodol iawn o'r problemau ar draws Castell-nedd Port Talbot gyfan; roedd gwahanol llinynnau gwaith yn parhau ym mhob maes ac roedd nifer o weithrediadau mewnol yn cael eu cynnal i dargedu rhai o'r problemau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Dirprwy Arweinydd, Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Swyddog Troseddau Busnes wedi ymweld â Chanol Tref Port Talbot yn ddiweddar i siarad â busnesau am YG. Hysbyswyd yr Aelodau nad yw'r Heddlu'n cymryd unrhyw adnoddau rhagweithiol o un canol tref, i'w defnyddio yn y llall; roedd adnoddau penodol ar gyfer pob un.

Mewn perthynas â'r 'Parth Gwahardd' a grybwyllwyd yn flaenorol gydag agwedd 'dim goddefgarwch' i YG, y gellid ei gyflawni gan fusnesau sy'n ymuno â'r PLlTB, gofynnwyd a oedd cynlluniau i ehangu hyn i Ganol Tref Port Talbot. Dywedodd swyddogion y byddai unrhyw ddull a ddefnyddiwyd yng Nghanol Tref Castell-nedd yn ddull gweithredu profedig y gellid ei ddefnyddio mewn gwahanol leoliadau eraill; roedd y Swyddog Troseddau Busnes yn ymweld â Chanol Tref Port Talbot yn rheolaidd i hyrwyddo'r PLlTB a'i fanteision, a cheisio annog busnesau i ymrwymo iddo.

Gofynnwyd a oedd unrhyw rwystrau wrth ymrwymo i'r cynllun PLlTB. Cadarnhaodd swyddogion fod cost i'r cynllun, ond roedd nifer o opsiynau gwahanol i fusnesau ddewis ohonynt. Roedd swyddogion yn ymwybodol bod gan y Fwrdeistref Sirol lawer o fasnachwyr bach, annibynnol ym mhob un o’i ganolau trefi ac roeddent am sicrhau bod rhywbeth a oedd yn hygyrch i'r masnachwyr mwy, yr un mor hygyrch i'r masnachwyr llai. Soniwyd bod y PLlTB yn rhan o rwydwaith cenedlaethol llawer ehangach ac roedd cynlluniau ar draws y wlad yng Nghymru a Lloegr; Roedd swyddogion yn awyddus i ddysgu o fod yn rhan o'r rhwydwaith hwnnw, a sut roedd eraill yn delio â hyn. Byddai masnachwyr yn cael eu hannog i roi gwybod i swyddogion am unrhyw rwystrau a oedd yn eu hatal rhag cofrestru, gan y gallai fod atebion a/neu addasiadau i'r cynllun.

Holodd yr Aelodau a oedd ystadegau YG ar gael ar gyfer pob ward o'r misoedd blaenorol ac a ellid dosbarthu'r ystadegau hyn i'r Aelodau. Esboniodd Swyddogion eu bod wedi derbyn adroddiadau chwarterol ar gyfer yr holl ystadegau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Cytunwyd y byddai'r ystadegau YG yn cael eu rhannu ag Aelodau, ond gan gadw mewn cof nad oedd yr ystadegau o reidrwydd yn adlewyrchu gwir raddfa'r broblem gan fod y broblem diffyg adrodd yn broblem enfawr yn gyffredinol.

Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y prif droseddau YG, yr oedd yr Heddlu'n ymwybodol ohonynt, a oedd yn digwydd yng Nghanol Tref Castell-nedd; wrth edrych ar y materion yr adroddwyd amdanynt dros wythnos gyfartalog, roedd y troseddau yr adroddwyd amdanynt yn cynnwys dwyn o siopau, ymladd ac unigolion dan ddylanwad yn achosi YG. Soniwyd bod digwyddiadau YG ar adegau wedi cynyddu i aflonyddwch lefel isel ar y strydoedd. Mewn perthynas â Llinellau Sirol, dywedwyd bod y digwyddiadau'n isel; Roedd yr Heddlu'n parhau i weithio i sicrhau bod Llinellau Sirol yn cael eu cadw yn y bae yn yr ardal.

Gofynnodd yr Aelodau ai'r un grŵp o bobl oedd yn cyflawni troseddau YG ac a oedd digon o bwerau i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith nad oedd pob digwyddiad yn gysylltiedig â'r rheini a oedd yn aros yng Ngwesty'r Ambassador; roedd yr Heddlu wedi cadarnhau nad oedd yr unigolion a oedd yn rhan o rai o'r digwyddiadau proffil uwch yn hysbys i'r Gwasanaeth Opsiynau Tai. Esboniwyd nad oedd y 99 o atgyfeiriadau a grybwyllwyd yn flaenorol yn 99 o unigolion gwahanol ond yn hytrach cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau, y gallai fod rhai ohonynt wedi cael eu hatgyfeirio mwy nag unwaith; roedd yr Heddlu'n gallu nodi'r rheini sy'n troseddu dro ar ôl tro o'r atgyfeiriadau a'r rheini a gafodd Rybuddion Diogelu Cymunedol, Hysbysiadau Diogelu Cymunedol a Gorchmynion Ymddygiad Troseddol. Ychwanegwyd bod unigolion yn y dref weithiau nad oeddent yn cyflwyno'u hunain yn briodol, ond nad oeddent o reidrwydd yn cyflawni unrhyw droseddau; roedd yn bwysig eu plismona'n gymesur.

Gofynnwyd i Swyddogion a oedd 'Stopio a Chwilio' yn effeithiol, a chadarnhawyd ei fod; roedd yr Heddlu arestio pobl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan ddefnyddio'r dull hwn. Hysbyswyd yr Aelodau fod Ymgyrch Sceptre yn effeithiol iawn gyda hyn ac yn nodi unigolion â chyffuriau.

Holwyd a fyddai'n fuddiol darparu ar gyfer y digartref mewn adeilad tebyg i'r Ganolfan L ac A yn Goetre, Port Talbot gan fod hon mewn ardal wledig. Esboniodd Swyddogion i'r Pwyllgor fod y Gwasanaeth Opsiynau Tai yn ei chael hi'n anodd cael gwestai a darpariaethau llety lleol i ymgysylltu â hwy; ar hyn o bryd, yr unig opsiwn ar gyfer lletya pobl ddigartref oedd yng Ngwesty'r Ambassador yng Nghastell-nedd a'r Ganolfan L ac A ym Mhort Talbot. Ychwanegwyd, hyd nes i Lywodraeth Cymru newid ei chyfarwyddeb ar letya pobl, fod y gwasanaethau hynny'n debygol o aros. Hysbyswyd yr Aelodau fod gan y ganolfan L ac A ei chyfres ei hun o broblemau a phroblemau tebyg i'r rhai a oedd yn digwydd yng Nghanol Tref Castell-nedd, yn ogystal â lle cyfyngedig; yn ystod yr wythnosau nesaf, roedd y Tîm Diogelwch Cymunedol yn bwriadu ymgysylltu â'r preswylwyr o amgylch yr ardal hon a siarad â nhw am atal troseddu ac adrodd am YG. Roedd angen parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i'w deddfwriaeth ddigartrefedd ac egluro'r pwysau yr oedd yn ei rhoi ar Awdurdodau Lleol i ddarparu llety pan oedd yr opsiynau'n gyfyngedig; fel arfer byddai llety arall ar gael, megis lleoliadau Gwely a Brecwast yn Abertawe, ond ers cyflwyno'r

ddeddfwriaeth, roedd pob Bwrdeistref Sirol yng Nghymru yn gorfod ufuddhau iddi ac yn gweld eu pwysau eu hunain.

Dywedodd yr Aelodau fod angen newid naratif y math hwn o waith er mwyn i'r cyhoedd gael dealltwriaeth glir o'r heriau yr oedd y cyngor a'i bartneriaid yn eu hwynebu a pham roedd yr heriau hyn yn gyffredin; cyfeiriwyd at y toriadau niferus i wasanaethau a sut roedd hyn wedi effeithio ar y gwaith.

Roedd yn bwysig nodi, wrth drafod newid canfyddiad y cyhoedd, nad oedd Swyddogion yn ceisio dweud nad oedd unrhyw faterion YG, ond yn hytrach roeddent yn awyddus i dynnu sylw'r cyhoedd at y gwahanol ffrydiau gwaith a oedd yn cael eu cyflawni er mwyn mynd i'r afael â'r problemau dan sylw; canfyddiad y cyhoedd o bryd i'w gilydd oedd nad oedd y cyngor yn gwneud unrhyw beth i geisio atal y problemau hyn rhag digwydd. Ychwanegwyd ei bod hefyd yn bwysig sicrhau bod gwybodaeth ffeithiol yn cael ei chyfleu i'r cyhoedd er mwyn atal sïon. Er mwyn ceisio setlo canfyddiad y cyhoedd a'r gwahanol sïon a oedd wedi bod ynghylch y digwyddiadau diweddar, bu Swyddog o fewn y Tîm Diogelwch Cymunedol yn monitro'u tudalen Facebook am sylwadau ac yn darparu ymatebion priodol; roedd yr ymateb uniongyrchol i'r sylwadau'n hanfodol er mwyn atal dyfalu a lleddfu pryderon.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod angen rheoli disgwyliadau'r cyhoedd pan oeddent yn ffonio gwasanaeth 101 Heddlu De Cymru. Eglurodd Arolygydd Heddlu De Cymru ar gyfer Tîm Cymdogaeth Castell-nedd y broses o ymdrin â galwadau amrywiol, roedd rhai elfennau yn y broses yn cynnwys asesiadau risg ac atgyfeiriadau i'r Tîm Datrys Digwyddiadau; roedd yr Heddlu wedi cyhoeddi cyfryngau ar y mater hwn yn ddiweddar ac wedi mynegi os yw'r alwad yn cael ei chofnodi ac yn ddilys, y byddai'n rhoi darlun iddynt o'r digwyddiad yr adroddwyd amdano a fyddai'n helpu i benderfynu ar yr adnoddau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd partneriaeth a grybwyllwyd yn flaenorol. Nodwyd bod gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu'n bwysig iawn yn y gwaith hwn. Gofynnwyd i swyddogion a ellid cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Craffu Diogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd yn y cyfarfodydd hyn. Dywedwyd y gallai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd gymryd rhan, ond byddai angen gwirio'r llywodraethu ynghylch hyn gyda Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

O ran adrodd am ddigwyddiadau i'r system ffôn 101, nodwyd bod preswylwyr wedi canfod bod y system hon yn heriol gan nad oeddent bob amser yn gallu cael eu trosglwyddo i weithredwr a bod ganddynt ddiffyg hyder yn y system ei hun. Dywedodd Swyddogion fod dulliau eraill ar waith i adrodd am ddigwyddiadau, gan gynnwys codau ar-lein a QR; roedd angen parhau i bwysleisio'r neges hon i'r cyhoedd i hyrwyddo pob opsiwn. Soniwyd bod 101 yn llinell nad oedd yn llinell argyfwng felly nid oedd angen ymateb brys; pe bai angen, byddai ffonio 999 yn ysgogi ymateb brys. Hysbyswyd yr Aelodau fod gwybodaeth am hyn wedi'i hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol yr wythnos diwethaf i roi gwybod i'r cyhoedd am y nifer o ffyrdd o adrodd am ddigwyddiadau; Byddai swyddogion hefyd yn dosbarthu'r wybodaeth hon i'r Aelodau.

Mynegodd yr Aelodau eu pryderon ynglŷn â'r diffyg adnoddau a oedd ar gael yn gyffredinol i ddelio â'r problemau YG parhaus, a thynnwyd sylw at y ffaith bod cael mwy o adnoddau yn hanfodol yn y broses o fynd i'r afael â'r problemau. Soniwyd am ddigwyddiad lle'r oedd yr Heddlu wedi cymryd gryn amser i gyrraedd safle mewn ymateb i alwad brys 999, a oedd yn bryder arall i'r Aelodau. Dywedwyd bod yr Heddlu lleol wedi cael pum Swyddog Heddlu ychwanegol o ganlyniad i adolygiadau a gynhaliwyd ar y cyflenwad a'r galw; roedd yr Heddlu'n recriwtio'n drwm ar hyn o bryd, ac yn gobeithio y byddai'r adnoddau ychwanegol yn cryfhau cadernid lleol. O ran yr Heddlu'n cymryd amser i gyrraedd digwyddiad, tynnwyd sylw at y ffaith nad dyma'r 'drefn arferol' ac yn gyffredinol byddai staff lleol yn cyrraedd mewn llawer llai o amser; fodd bynnag, roedd adegau lle byddai oedi pe bai'r staff mewn mannau eraill.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â theledu cylch cyfyng (CCTV). Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith y gallent fod yn arf defnyddiol pe bai mwy o gamerâu ar waith i erlyn y rheini sy'n troseddu. Nodwyd bod technoleg CCTV newydd yn cael ei chyflwyno'n sylweddol; ar hyn o bryd roedd y broses dendro'n parhau. Ychwanegodd Swyddogion y byddai hyn yn cynnwys technoleg newydd sbon, yn gwella cysylltiadau â'r Heddlu a bydd y camerâu'n dangos delweddau gwell.

Soniwyd y gallai Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus helpu i ddelio â phroblemau YG parhaus yng nghanol y dref. Cadarnhaodd Swyddogion fod y defnydd o GDMACau wedi'i drafod wrth feddwl am ba opsiynau a dulliau y gellid eu rhoi ar waith i geisio helpu i leihau'r problemau; fodd bynnag, roedd llawer o gamdybiaethau ynghylch eu heffeithiolrwydd. Tynnwyd sylw at y ffaith pe bai GDMAC ar waith

byddai angen gosod arwyddion yn yr ardal benodol, gan nodi pa weithredoedd a waherddir; byddai angen adnoddau yn yr ardal hon i sicrhau y glynir wrth y GDMAC, ond roedd yr adnoddau'n gyfyngedig ar hyn o bryd. Soniwyd nad yr Heddlu fyddai'r asiantaeth erlyn pe bai GDMACau yn cael eu rhoi ar waith; yn hytrach cyfrifoldeb yr Awdurdod Lleol fyddai hynny. Hysbyswyd y Pwyllgor mai pryder arall gyda GDMACau oedd eu bod yn tueddu i ddadleoli'r broblem gan y byddant yn datrys y broblem mewn un lle arbennig, ond yn creu un mewn man arall. Ychwanegwyd y gallent hefyd fod yn rhwystr i bobl a busnesau eraill sydd eisiau dod i ganol y dref. Cadarnhaodd Swyddogion y byddant yn parhau i archwilio'r holl opsiynau posib, ond roedd yn hanfodol ystyried manteision, anfanteision ac effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau y gellid eu defnyddio. Cytunwyd y bydd y Prif Swyddog Diogelwch Cymunedol yn paratoi nodyn briffio i aelodau ar ddefnyddio GDMACau.

Diolchwyd i'r Swyddogion a chydweithwyr yr Heddlu am eu cyflwyniad a'u gwaith caled parhaus gyda'r mater hwn.

## 3. **<u>BLAENRAGLEN WAITH</u>**

Gofynnodd yr Aelodau a ellid symud yr eitem ganlynol ymlaen i ddyddiad cynharach:

- Y diweddaraf am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn gyffredinol Byr holl ganolau trefi ac yn ehangach)

Cytunwyd y byddai'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â'r Cadeirydd a'r Swyddogion i nodi dyddiad ychwanegol i'r Pwyllgor gyfarfod i drafod yr eitem hon.
Penderfynodd y Pwyllgor y dylid cynnwys yr eitemau canlynol yn y Blaenraglen Waith:

- Y diweddaraf am y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r BCA ynghylch camddefnyddio sylweddau a'r gwaith lleihau niwed a oedd yn digwydd yn lleol;
- Y diweddaraf am brosiect a chyllid LEADER. Soniwyd bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn arwain ar y prosiect hwn, felly dylid gwahodd y cyswllt perthnasol i gyflwyno.

Nododd yr Aelodau Flaenraglen Waith yr Is-bwyllgor Craffu ar Ddiogelwch Cymunedol a Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer 2021/22.

**CADEIRYDD**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

**NEATH PORT TALBOT COUNTY BOROUGH COUNCIL / CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**Community Safety & Public Protection Scrutiny Sub Committee**

1st October 2021

**Report of the Head of Education Development**
Chris Millis

**Matter for Monitoring**

**Wards Affected: All Wards**

**Report Title**
Quarterly Performance Management Data 2021-2022 – Quarter 1 Performance (1st April 2021 – 30th June 2021)

**Purpose of the Report:**
To provide members with quarter 1 performance management data, for the period 1st April 2021 to 30th June 2021 for Education, Leisure and Lifelong Learning Directorate relating to Community Safety & Public Protection. This will enable the Community Safety & Public Protection Scrutiny Sub Committee to discharge their functions in relation to performance management.

**Executive Summary:**
The report provides data relating to 11 KPI's (including 2 Corporate Plan indicators) in respect of the Community Safety Team and Western Bay Commissioning & Development Team elements of the Partnerships & Community Cohesion section.

**Background:**
Members are presented with a full suite of Community Safety & Public Protection KPI's (Corporate Plan and Local KPI's).
A list of quarter 1 key performance KPI's with progress comments on each indicator are attached as appendix 1.

KPI status:
- GREEN (green traffic light) - KPI's that have improved on or achieved target
- AMBER (amber traffic light) - KPI's that have not achieved target but performance is within 5%
- RED (red traffic light) - KPI's that are 5% or more below target

Where available, appendix 1 provides performance data for quarter 1 performance for 2019/20, 2020/21 & 2021/22. The target provided is for the corresponding period.

**Financial Impacts:**

The performance described in the report is being delivered against a challenging financial backdrop.

**Integrated Impact Assessment:**
There is no requirement to undertake an Integrated Impact Assessment as this report is for monitoring / information purposes.

**Valleys Communities Impacts:**
No implications.

**Workforce Impacts:**
The Council's workforce continues to contract as financial resources continue to reduce. In recognition of the scale of change affecting the workforce, a new Corporate Workforce Plan has been developed to support the workforce to adapt to the changes that are taking place.

**Legal Impacts:**
This Report is prepared under:
The Local Government (Wales) Measure 2009 and discharges the Council's duties to "make arrangements to secure continuous improvement in the exercise of its functions".
The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015
The Neath Port Talbot County Borough Council Constitution requires each cabinet committee to monitor quarterly budgets and performance in securing continuous improvement of all the functions within its purview.

**Risk Management Impacts:**
Failure to provide a suitable monitoring report within the timescales could lead to non-compliance with our Constitution. Also, failure to have robust performance monitoring arrangements in place could result in poor performance going undetected.

**Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Impacts:**
Section 2(1) of the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Act 2015 introduced a general duty where a person exercising relevant functions must have regard (along with all other relevant matters) to the need to remove or minimise any factors which:

(a) increase the risk of violence against women and girls, or
(b) exacerbate the impact of such violence on victims.

**Consultation:**
There is no requirement under the Constitution for external consultation on this item.

**Recommendations:**
Members monitor performance contained within this report.

**Reasons for Proposed Decision:**
Matter for monitoring. No decision required.

**Implementation of Decision:**
Matter for monitoring. No decision required.

**Appendices:**
Appendix 1: Key Performance Management Data - Quarterly.

**List of Background Papers:**
The Neath Port Talbot Corporate Improvement Plan - 2019-2022
Monitoring forms/spreadsheets
Welsh Government Statistical Releases

**Officer Contact:**
Neal Place, Performance Management Officer.
E-mail n.place@npt.gov.uk. Tel. 01639 763619

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council



# Performance Indicators

## Neath Port Talbot Council

Appendix 1 - Partnerships & Community Cohesion  Performance Indicators -  Quarter 1  ( 1st April -  30th June) 2021/22

sycle

*Print Date: 22-Sep-2021*

## How will we know we are making a difference (01/04/2021 to 30/06/2021)?

| PI Title | Actual 19/20 | Actual 20/21 | Actual 21/22 | Target 21/22 | Perf. RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Organisation** | | | | | |
| CP/034 - Percentage of incidents of domestic abuse where people are repeat victims - Independent Domestic Violence Advisor (IDVA) Service - highest risk victims | 42.57 | | 35.20 | 32.00 | Red |
| During the COVID-19 pandemic there was a significant increase in disclosures of domestic abuse across all services, and this was widely anticipated. Many of our repeat victims were not in contact during this time, however repeat victims accessing the service have now increased. The IDVA service continue to work from home which has not impacted on service delivery, but has in fact allowed for better engagement with victims.<br>No data collected for quarter 1 2020/21 due to COVID-19. | | | | | |
| CP/115 - % of children that have received the Healthy Relationship lesson to address violence against women, domestic abuse and sexual violence (VAWDAVS) | | | | 0.00 | NA |
| New indicator for 2021/22. At present we are experiencing difficulties with the data and that meaningful targets are difficult to set. This KPI is no-longer meaningful in its current form. The Violence Against Women Domestic Abuse and Sexual Violence Leadership Group continues to oversee the NPT Healthy Relationships for Stronger Communities Strategy which was revised during 2020. The delivery of Healthy Relationship lessons in all schools remains a key priority area. The Relationship and Sexuality Education Group has the responsibility for the development and implementation of this lesson, and this group are directly accountable to the Leadership Group. Good progress has been made with 1352 pupils receiving the lesson since the start of the programme in Jan 2020 to end June 2021. Due to Covid and funding issues the programme has been temporary suspended. | | | | | |
| PI/153 - Number of referrals of high risk victims to the IDVA (Independent Domestic Violence Advisor) service | 101.00 | | 125.00 | 113.00 | Red |
| During the covid-19 pandemic there was a significant increase in disclosures of domestic abuse across all services, and this was widely anticipated. The IDVA service saw a sharp increase of high risk referrals  and this level of demand continued for some months. Cases were having to be kept open far longer than usual as housing allocations were paused and courts were closed. This created a much larger than usual caseload for the service. In December 2020, 2 additional IDVA's were appointed with Welsh Government funding on an 18 month basis. The IDVA service continue to work from home, which has not effected service delivery. Engagement levels have increased. Court hearings and housing allocations have now restarted, meaning the full support service can be delivered. | | | | | |
| PI/154 - Number of new members to Paws on Patrol | 48.00 | 0.00 | 132.00 | 25.00 | Green |
| Paws on Patrol is a Community Safety initiative, which asks members of the public to be the eyes and ears in their community whilst they're out walking their dog. We encourage residents to report what they see through to the right channels. Upon signing up, members get a free welcome pack and a bimonthly newsletter. The team regularly host engagement events in various areas of the borough, to promote the scheme but also to engage with existing members about key Community Safety related information. Due to the Covid-19 pandemic all engagement events were cancelled, but they resumed during Q1. The total number of members to the scheme is now 1100. During the pandemic, the scheme responded to the growing concerns of dog thefts, by offering free dog theft prevention packs to all members, these were very well received. The scheme now has a social media presence and this has really helped to see a very sharp increase of members in Q1, far exceeding the target. | | | | | |

| PI Title | Actual 19/20 | Actual 20/21 | Actual 21/22 | Target 21/22 | Perf. RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| PI/466 - Percentage of children and young people who have participated in a suitable programme that addresses VAWDASV | 49.39 | | | 45.00 | NA |
| This years Crucial Crew event has had to be cancelled for the 2nd year running, due to the Covid-19 pandemic and restrictions. A virtual Crucial Crew video has been developed and published on the Hwb network for schools. We hope to resume Crucial Crew in 2022, with the support of many partner agencies. | | | | | |
| PI/467 - Percentage of year 6 children and young people who have participated in a suitable programme to address cyber-crime | 98.79 | | 0.00 | 98.00 | Red |
| This years Crucial Crew event has had to be cancelled for the 2nd year running, due to the Covid-19 pandemic and restrictions. A virtual Crucial Crew video has been developed and published on the Hwb network for schools. We hope to resume Crucial Crew in 2022, with the support of many partner agencies. | | | | | |
| PI/482 - Number of  monitoring visits undertaken to APB (Area Planning Board) commissioned substance misuse service | 0.00 | | 18.00 | 17.00 | Green |
| One service is being part funded by project ADDER (Addiction, Diversion, Disruption, Enforcement and Recovery - Office of the Police and Crime Commissioner) but the APB team (Area Planning Board Commissioning Team) is retaining a stake in the service as SMAF (Substance Misuse Action Fund - Welsh Government Funding) will kick in once the ADDER funding runs out towards the end of the year. | | | | | |
| PI/483 - Number of agreed service outcomes achieved in APB commissioned substance misuse services | | | 14.00 | 17.00 | Red |
| 3 services are under performing:<br>• CDAT (Community Drug and Alcohol Team) Swansea; CDAT NPT: both have waiting lists so Individuals are unable to access the support that they need.  This is being address with the Health Board, who are awaiting the outcome of their internal review.<br>• Platfform Counselling service: this is currently not being delivered due to redundancies made as a result of funding changes.  They are currently going through a second attempt to recruit to the vacant 22 hour Counselling post. | | | | | |
| PI/484 - Percentage of non-fatal over-doses notified through the protocol that received appropriate advice and or other intervention | 7.00 | | 83.00 | 50.00 | Green |
| NPT figures for quarter 1.<br>Non-fatal overdoses  -these are cases where the overdose has been confirmed.<br>There were 18 cases, 7 from PT and 11 from Neath.<br>Out of those cases 15 received an intervention or advice which is 83%.<br>Youngest person was 17 and oldest was 55. Street benzos (Benzodiazepines) were mentioned 9 times in the overdose and heroin 6 times. 8 cases were poly drug use. | | | | | |

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag

# SCRUTINY

# FORWARD WORK PROGRAMME

# March 2021 – 2022

# Community Safety and Public Protection Scrutiny Sub Committee (All starting 10am unless otherwise stated)

| Meeting Date | Agenda Item | Contact Officer |
|---|---|---|
| **2021** | | |
| 9th July | Neath Town Centre Anti-Social Behaviour | Elinor Wellington |
| | | |
| 1st October | Environmental Health/Trading Standards – Food Hygiene Inspections (Performance and Impact of Covid 19) | Ceri Morris / Mark Thomas |
| | Performance Report - Quarter 1 2021/22 | Shaun Davies |
| 12th November | Update on Anti-Social Behaviour in general (all town centres and wider) | Elinor Wellington |
| | | |
| 17th December (2.00 pm) | CCTV – Position Statement and Update | Chris Owen / Chris Cole |
| | Performance Report - Quarter 2 2021/22 | Shaun Davies |
| | Update on NPT Safe Spaces | Elinor Wellington |
| **2022** | | |
| 18th March | Update on Substance Misuse from the APB/APB Regional Team around the transformation project, how services have responded during Covid 19, what else is being developed and harm reduction work | Claire Jones |
| | Update on the ADDER project and funding (Rep from PCC's Office to be invited) | Claire Jones |
| | Performance Report - Quarter 3 2021/22 | Shaun Davies |

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag